# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Ysgol Glan Morfa**

**Ysgol Glan Morfa**
**Lewis Road**
**Y Sblot**
**Caerdydd**
**CF24 5EB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

10/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Ysgol Glan Morfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Ysgol Glan Morfa |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Ar ôl cofrestru 11 Rhagfyr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio ar blant ac yn annog plant i arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus ac yn edrych ymlaen at fynychu'r cylch meithrin. Mae eu barn a'u diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da sydd yn ysgogol ac yn hwyl. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u ffrindiau a staff, ac yn gwneud cynnydd da ym mhob agwedd ar eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn angerddol am eu rolau ac yn darparu gofal meithringar ac ymatebol. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang a diddorol o weithgareddau sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, chwarae a dysgu. Nid oes system gweithiwr allweddol ar waith ar hyn o bryd.

Mae'r gwasanaeth yn groesawgar a gyda digon o adnoddau. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae angen cryfhau rhai agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cymorth i staff ond nid ydynt yn cynnal goruchwyliaeth ffurfiol a chyfarfodydd arfarnu rheolaidd. Mae'n rhaid anfon hysbysiadau o unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer rhedeg y lleoliad at Arolygiaeth Gofal Cymru o fewn yr amserlen ofynnol. Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth o'r lleoliad ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

| Llesiant | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae'r plant yn dewis eu gweithgareddau'n rhydd ac yn gwybod y byddant yn derbyn cymorth neu gefnogaeth os ydynt yn gofyn amdanynt. Maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod y sesiynau ac mae'r drefn feunyddiol yn gyfarwydd iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn eistedd pan fyddant yn rhagweld amser cylch ac yn gwybod pryd i baratoi am amser byrbryd. Mae hyn yn darparu sicrwydd i'w diwrnod ac yn helpu'r plant i ymgartrefu'n hawdd. Maent yn cael eu hannog i fynegi eu hoffterau a'u barn yn ystod amser cylch, ac yn derbyn cymorth i gymryd rhan a mynegi eu hunain. Mae'r plant yn dewis y straeon ac yn edrych ymlaen at fod yn helpwr y dydd. Mae'r plant yn hyderus ac yn dangos boddhad gyda'r ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu da sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn hapus a diogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn cysylltu breichiau gyda ffrindiau ac yn canu'n ddigymell wrth chwarae. Mae ganddynt deimladau amlwg o hoffter gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal cynnes a chyson. Maent yn hyderus wrth fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Cafodd un plentyn a oedd wedi cynhyrfu ar ôl disgyn yn yr ardal awyr agored sylw agos gan aelod o staff, a arhosodd gyda'r plentyn i ddarparu cysur a chymorth nes bod y plentyn yn barod i ymuno â'r gweithgareddau.

Mae gan y plant gyfleoedd da ar gyfer chwarae dychmygol ac maent yn mwynhau rhannu ystod o weithgareddau chwarae rôl. Roedd y plant yn mwynhau ffugio bod yn gŵn wrth chwarae gyda'i gilydd yn y wigwam a chawsant hwyl yn rhedeg ar ôl ei gilydd, gan wneud synau anifeiliaid. Roeddent hefyd yn mwynhau bod yn greadigol wrth baentio anifeiliaid fferm ar gyfer yr arddangosfa ar y wal. Mae'r plant yn cael ymarfer corff ac awyr iach yn rheolaidd, ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser y maent yn ei dreulio yn chwarae'n egnïol yn yr awyr agored. Maent yn edrych ymlaen at chwarae yn yr awyr agored mewn iard ysgol sydd ag adnoddau da ac mae ganddynt fynediad heb ei gyfyngu at yr ardal hon.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso wrth newid gweithgareddau. Mae'r plant yn dod o hyd i'w heiddo eu hunain ac yn clirio ar ôl bwyta. Mae ganddynt oll eu bachyn cot eu hunain a man i storio eiddo personol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio cyfleusterau'r toiledau'n annibynnol, gan ofyn am gymorth os oes angen. Maent yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad sy'n perthyn i gwblhau'r tasgau hyn. Mae bron pob un plentyn yn deall yr angen i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at eraill.

## Gofal a Datblygiad — Nid oes angen sgôr

Mae gan y staff systemau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.  Mae'r polisi a gweithdrefnau diogelu yn hyrwyddo lles y plant. Cafodd y rhain eu cryfhau a'u hegluro yn ystod yr arolygiad. Mae staff yn deall eu rolau a chyfrifoldebau i fod yn wyliadwrus ac maent yn deall sut i ddelio ag unrhyw bryderon. Mae staff yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd. Nid yw staff yn cadw cofnod o anafiadau presennol y plant pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad ar hyn o bryd. Mae'r lleoliad wedi rhoi system ar waith i gynnal ymarferion tân rheolaidd ar wahân i'r rhai a gynhelir gan yr ysgol. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau mewn manylder. Nid yw'r unigolyn â gofal yn archwilio'r cofnodion hyn am unrhyw dueddiadau a allai fod angen mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd. Mae'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus wrth ymdrin â mân anafiadau. Trafodir gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant unigol ac fe'i gwneir yn hygyrch i'r holl staff. Mae rhieni yn rhannu unrhyw newidiadau a chaiff cofnodion eu diweddaru'n briodol. Mae'r plant yn mwynhau byrbryd iachus yn ystod pob sesiwn. Nid yw'r staff yn gwneud cofnod o fwydlenni.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Maent yn ystyrlon o anghenion unigol y plant ac mae ganddynt ddisgwyliadau realistig ohonynt. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion yn ymwneud ag ymddygiad. Mae staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r staff yn esiamplau da cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol. Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod gweithgareddau ar y bwrdd, ac yn sgwrsio â nhw. Mae hyn yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol ag oedolion yr ymddiriedir ynddynt ac yn hyrwyddo hunanhyder y plant. Mae'r staff yn sensitif i'w hanghenion a'u profiadau. Mae'r staff yn hyrwyddo trafodaeth agored ac yn gwerthfawrogi syniadau plant am newid gweithgareddau ac adnoddau.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant ac yn hwyluso amrywiaeth dda o weithgareddau adloniant a hamdden. Mae'r plant yn dysgu sut i ddefnyddio dyfeisiau digidol yn hawdd ac maent yn deall bod angen iddynt rannu'r adnoddau hyn. Mae'r staff yn y broses o sefydlu ffeiliau cynnydd unigol y plant. Gwelsom lawer o dystiolaeth wedi'i chronni nad oedd wedi'i rhoi yn ffeiliau unigol y plant oherwydd cyfyngiadau amser. Nid oes system gweithiwr allweddol ar waith ar hyn o bryd. Mae staff yn y camau cynnar o ddefnyddio system electronig i rannu gwybodaeth gyda rhieni ac i gasglu gwybodaeth am gynnydd y plant. Mae'r staff yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am gynnydd, cyflawniadau a datblygiadau eu plentyn. Mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg drwy gydol y sesiynau ac mae'r plant yn datblygu sgiliau a hyder i gyfathrebu drwy'r Gymraeg.

| Yr Amgylchedd | Nid oes angen sgôr |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad wedi'i leoli o fewn Ysgol Gymraeg Glan Morfa yn y Sblot, Caerdydd. Mae ganddo'r defnydd o un ystafell ganolog, cegin a chyfleusterau toiledau penodedig. Mae yna faes chwarae amgaeedig yn yr awyr agored yn benodol at ddefnydd y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae gan y plant hefyd ddefnydd o'r ffrâm ddringo a'r cae mawr pan nad ydynt mewn defnydd gan y plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn hygyrch ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau cofrestr o'r plant sy'n mynychu ac yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant bob dydd. Maent yn sicrhau bod cymarebau staff yn cael eu cynnal bob amser. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan, sy'n cynnwys diogelwch tân, COVID-19, a holl weithgareddau'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad. Mae'r ysgol yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac yn sicrhau bod y gwaith gwasanaethu cyfleustodau yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae staff yn cyflawni dyletswyddau glanhau a diheintio yn ôl y gofyn drwy gydol y sesiynau. Mae staff a gyflogir gan yr ysgol hefyd yn glanhau'r cyfleusterau bob dydd. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau a llachar i blant eu harchwilio. Mae ystod dda o adnoddau o ansawdd da, ynghyd ag amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn gallu cyrchu'r holl ddodrefn ac offer yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae offer ac adnoddau yn doreithiog ac yn briodol ar gyfer cyfnod datblygiad yr holl blant, gan hyrwyddo chwilfrydedd a darganfyddiad. Nid yw'r plant yn defnyddio cyfleusterau'r toiledau heb oruchwyliaeth gan eu bod wedi'u lleoli tu allan i'r ystafell ganolog ar ochr arall y coridor. Nid oes gan y plant fynediad at y gegin.

Mae yna ardal chwarae amgaeedig yn yr awyr agored yn benodol at ddefnydd y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae gan yr ardal hon lawer o adnoddau da, sy'n cynnwys offerynnau cerddorol, chwarae dŵr a thywod. Mae gan y plant hefyd ddefnydd o'r ffrâm ddringo a'r cae mawr pan nad ydynt mewn defnydd gan y plant sy'n mynychu'r ysgol. Os bydd angen, defnyddir prif neuadd yr ysgol gan y plant pan fydd ar gael hefyd. Mae'r cyfleusterau yn newydd ac yn atyniadol ac maent yn darparu amgylchedd da iawn ar gyfer chwarae a dysgu'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Nid oes angen sgôr

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol yn y lleoliad. Nid oes gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'r rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol bob amser fel sy'n ofynnol. Ni chafwyd hysbysiad o newid i'r trefniadau ar gyfer rhedeg y lleoliad gan AGC nes diwrnod yr arolygiad, yn hytrach na 28 diwrnod ymlaen llaw. Dywedodd yr unigolyn â gofal, sef yr unigolyn cyfrifol hefyd, wrthym ei bod yn eglur am ei chyfrifoldebau cysylltiedig â'r broses hon yn ystod yr arolygiad. Mae yna ddatganiad o ddiben mewn grym a ddiweddarwyd yn ystod yr arolygiad ac mae'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg. Mae'r pwyllgor rheoli yn cymryd rhan fawr yn y gwaith o redeg y lleoliad ac yn cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu cymorth i'r unigolyn â gofal a'r tîm.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n galed i hyrwyddo arferion diogel ac yn gosod nodau clir i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn uchel eu cymhelliant, ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r tîm yn sefydlog gydag ychydig newidiadau, sy'n rhoi ymdeimlad o barhad i'r plant.  Mae gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau eu swyddi. Mae'r holl wybodaeth ofynnol i ddangos addasrwydd staff yn ei lle. Mae'r unigolyn â gofal yn awyddus i gyflogi staff ychwanegol i weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn hefyd yn rhyddhau amser ar gyfer yr unigolyn â gofal i gwblhau tasgau rheoli a sefydliadol. Nid yw staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio un-i-un ffurfiol rheolaidd sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrio ar eu hymarfer. Mae'r holl gymorth a ddarperir yn anffurfiol ac ni chaiff ei gofnodi fel arfer. Mae'r staff yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i gynllunio. Mae hyn yn rhan o'r adroddiad ansawdd gofal blynyddol. Maent yn barod i dderbyn adborth a byddant yn gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw yn ddi-oed. Mae trefn gwyno yn ei lle, er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae partneriaethau gyda rhieni yn agos a dywedodd rhieni wrthym eu bod yn hapus ag ansawdd y gwasanaeth a'u bod yn hyderus i drafod unrhyw faterion gyda'r staff. Mae perthynas dda iawn gyda'r ysgol, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r lleoliad.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau bod system gweithiwr allweddol ffurfiol yn cael ei rhoi ar waith

A2. Datblygu system i gofnodi anafiadau presennol plant

A3. Sicrhau hysbysiadau amserol o unrhyw newidiadau i AGC

A4. Sicrhau bod yr holl staff yn cael goruchwyliaeth ffurfiol a chyfleoedd am arfarniad yn hytrach na chyfarfodydd anffurfiol

A5. Cofnodi'r fwydlen byrbryd ddyddiol

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 11/03/2022